

Conwy - 5,000 o Flynyddoedd o Hanes Dynol Blwch Adnoddau

Cwricwlwm Cymru CA1, 2 a 3



CANOLFAN
DDIWYLLIANT
CONWY
CULTURE
CENTRE



Bydd yr her hon yn canolbwyntio ar sgiliau ymchwil, creadigrwydd a chyfathrebu eich disgyblion, tra'n darparu profiad dysgu bywiog, hwyliog a boddhaus.

Tîm Canolfan Ddiwylliant Conwy sydd wedi gosod yr her.

Mae 'Mantell yr Arbenigwr' yn ddull addysgol sy'n defnyddio cyd-destun dychmygol i gynhyrchu gweithgareddau pwrpasol ac ymgysylltu ar gyfer dysgu. Rydym wedi defnyddio rhai elfennau o'r dull hwn wrth ddatblygu'r adnoddau hyn.

Cwricwlwm Cymru

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu i ategu Cwricwlwm Cymru. O'r 12 egwyddor pedagogaidd a amlygwyd yn 'Dyfodol Llwyddiannus', mae'r adnodd hwn yn:

- creu cyd-destun dilys ar gyfer dysgu
- annog dysgwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.
- cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- annog cydweithredu
- hefyd yn annog ystod eang o ddulliau addysgu, hybu datrys problemau, creu a meddwl yn greadigol a defnyddio ac atgyfnerthu dysgu trawsgwricwlaidd ar draws y chwech maes dysgu.

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu ar drywydd y pedwar diben yn y cwricwlwm, datblygu pobl ifanc fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, hysbys Cymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus, yn barod i arwain bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Gellir diwallu'r chwech maes dysgu a phrofiad drwy ddilyn ac addasu ein dull 'Mantell' o fewn yr adnodd hwn. Mae'n annog cyfraniad mentrus a chreadigol a datblygu sgiliau sydd â galw amdanynt gan gyflogwyr.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae yna gyfleoedd ar gyfer defnyddio pum disgyblaeth celf, dawn, drama, ffilm a chyfryngau digidol a cherddoriaeth ar gyfer ymgysylltu'n gorfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r 'Fantell' hon yn creu profiad ystyrion fydd yn archwilio amrywiaeth a newidiadau diwylliannol drwy hanes Cymreig lleol. Bydd gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd yn cael eu datblygu drwy'r gweithgareddau, yn galluogi plant i ymgysylltu gyda materion sydd wedi datblygu Cymru a'r byd, a fydd yn parhau i gael effaith ar eu bywydau.

Iechyd a Lles

Mae'r Fantell hon yn cynnig cipolwg ar y newidiadau cymdeithasol sydd wedi effeithio ar blant drwy hanes. Mae'r cyd-destunau hyn yn caniatáu ar gyfer trafodaeth a thrafodaethau cymharol sy'n galluogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi profiadau ac ymateb eu hunain ac eraill i bwysau a galw cymdeithasol. Mae'r Fantell gydweithredol hon yn darparu mynediad i ddysgwyr i sefyllfa gyflogaeth realistig ble gallant ddysgu am waith a'r sgiliau o werth yn y gweithle. Gallant hefyd archwilio pwysigrwydd meddyliol a chorfforol o ddysgu drwy chwarae.

Y Dyniaethau

Mae'r Fantell hon yn darparu dulliau corfforol i ymdrochi'r dysgwyr mewn cyfnodau o amser dilyniant mewn hanes lleol. Roedd y ffordd yr oedd plant yn chwarae, a gyda beth yr oeddynt yn chwarae yn cynrychioli bwyd, gwaith a chyflwr cymdeithas yn y cyfnodau hynny. Bydd cyd-destun hanesyddol y Fantell hon yn rhoi ymdeimlad o berthyn drwy edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn plentynod drwy hanes lleol.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd y Fantell hon yn datblygu gwybodaeth a sgiliau gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae cyfrifoldeb ymchwil a threfniadol ac elfennau ysgrifennu creadigol a chyfathrebu yn ysgogi hyder a sgiliau mewn cyd-destun mentrus.


Mathemateg a Rhifedd

Mae'r Fantell menter hon yn rhoi cyfle i ymgysylltu mewn gweithgareddau tîm ac unigol i ddefnyddio a gwella gwybodaeth mathemateg a sgiliau rhifedd drwy gysyniadau bywyd gwirioneddol. O ymchwil a chynllunio i dasgau dylunio a gwerthuso ac o adio a thynnu syml (wedi'i gysylltu â'r dis er enghraifft) i dablau, graffiau a dehongliad pellach o ddata hanesyddol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Drwy ddefnyddio teganau drwy gydol stori hanes Conwy, mae gan y dysgwr gyfle unigryw i ymchwilio i ddeunyddiau, eu nodweddion a'u defnydd wrth i dechnoleg ddatblygu. Yn ogystal, mae yna enghreifftiau gwych o sut oedd deunyddiau yn cael eu 'canfod' drwy ddamwain i'w datblygu fel teganau neu ddeunydd ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu. Mae hefyd yn gyfle gwych i gysylltu datblygiadau technolegol gyda'r gwersi yr ydym yn eu dysgu ar hyn o bryd. *A ddylai mwy o gwestiynau fod wedi cael eu gofyn am oes plastig yn iddo ddod yn anghenraid dynol ac achosi gwastraff ar ein planed?*

Ein cenhadaeth genedlaethol yw uchelgais, arloesi a hyder.



“ Ein cyfrifoldeb ar y cyd yw ysbrydoli, cynnwys a chymell y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr wrth i ni geisio datblygu Cymru mwy disglair, mwy ffyniannus. Rydym yn byw mewn cyfnod heriol ac ni fydd yn hawdd datblygu system yr ydym i gyd yn falch ohono. Ond mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn un uchelgeisiol. Mae ein cenedl angen unigolion angerddol a chytbwys sydd nid yn unig â gallu llythrennedd, rhifedd a digidol, ond hefyd y sgiliau meddwl yn feirniadol, dychymyg a gwydnwch i ragori mewn – a chreu – swyddi newydd yfory. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed ac nad yw yr un plentyn yn cael ei adael ar ôl. ”

Kirsty Williams - AC Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Y Cleient

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy yn ganolfan ragoriaeth arloesol ar gyfer diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn Sir Conwy a leolir ar safle'r Hen Ysgol, Bodlondeb yn nhref Conwy.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys archifdy'r sir, llyfrgell ardal, arddangosfeydd treftadaeth, canolfan gelfyddydau gymunedol, ystafell gyfarfod a chaffi.

Mae'n fan cychwyn gwych ar gyfer archwilio hanes cyfoethog Sir Conwy. Mae'r arddangosiadau yn arwain ymwelwyr drwy bum mil o flynyddoedd o hanes ac mae'n cynnwys gwrthrychau unigryw, gwaith celf hyfryd a dehongliad rhyngweithiol sy'n addas i'r teulu cyfan.

Llyfrgell a llawer mwy; dyma loches, lle i ymlacio neu i wneud tipyn o waith. Rhywle i eistedd ac ymlacio gyda phaned a llyfr da. Ydych chi erioed wedi mynd ati i ymchwilio i hanes lleol neu hanes eich teulu? Dyma'r cyfle perffaith, gyda staff cyfeillgar wrth law i'ch helpu i ddechrau arni.

Mae'r manau sydd wedi'u tirlunio o amgylch y ganolfan yn cynnwys gardd synhwyraidd heddychlon gyda llwybrau a seddi hygrych. Gallwch wrando ar leisiau lleol yn adrodd eu hanesion wrth i chi edmygu'r planhigion meddyginiaethol yn yr Ardd Berlysiâu, sy'n cydnabod hanes mynachaid cyfoethog Conwy cyn y castell.

Yr Her

Ymchwilio, dylunio a datblygu eich arddangosfa amgueddfa dros dro eich hun ar 'Bobl yng Nghonwy dros 5,000 o Flynyddoedd'. Cyflwyno eich arddangosfa arfaethedig i dîm Canolfan Ddiwylliant Conwy.

Nod yr adnodd hwn yw eich helpu i arwain eich myfyrwyr drwy 5,000 o flynyddoedd o hanes dynol yng Nghonwy. Dylai ddarparu ymwybyddiaeth gronolegol sylfaenol a gwybodaeth am hanes lleol Conwy. Bydd yn ysbrydoli syniadau newydd, darparu propiau corfforol ar gyfer dysgu a senario realistig ar gyfer dysgu addasol. Bydd yr ymweliad i Ganolfan Ddiwylliant Conwy yn galluogi'r plant i gyflwyno eu harddangosfa dros dro arfaethedig, derbyn adborth gan staff y Ganolfan ac adlewyrchu ar eu siwrnai dysgu 'bywyd gwirioneddol'.

Mae awgrymiadau gweithgaredd wedi eu cynnwys i roi blaen i chi wrth gynllunio eich 'Mantell' trawsgwricwlaidd.

Sut ydyn ni'n canfod yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol? Rydym wedi defnyddio llawer o ffynonellau; archifau Conwy, llyfrgelloedd, y rhyngwyd, papurau newydd, lluniau, paentiadau, cyfnodolion, llyfrau log, cofnodion ... Mae'n rhaid i chi fod yn ymchwiliwr, yn chwilio am dystiolaeth a chliwiau, a hefyd yn ddehonglwr, gan roi gwybodaeth at ei gilydd a ffurfio'r stori mwyaf tebygol. Dyma rai o'r sgiliau pwysig yr ydym yn gobeithio eich helpu i'w datblygu yn eich dysgwyr ifanc. Mae'r awgrymiadau gweithgaredd wedi eu llunio i ddatblygu sgiliau pellach ar draws y 6 Maes Dysgu a datblygu plant i fod y gorau y gallan nhw fod.

Mae'r adnoddau ar gyfer eu trin yn y cês yn cynnwys teganau dilys, delweddau a dogfennau i chi ddechrau. Rydym wedi awgrymu'r cyfnodau amser pan oeddent yn fwy tebyg o fod yn berthnasol yng Nghymru. Mae teganau a chwarae yn aml yn cynrychioli sut yr oedd bywydau yn ystod cyfnodau penodol mewn hanes. Mae hyn yn eu gwneud yn ddeunydd corfforol defnyddiol i blant i ddechrau meddwl a thrafod sut yr oedd bywyd i blant yn y gorffennol. Mae llawer o'r teganau yn cynnwys tarddiad cynharach mewn rhannau eraill o'r byd y gall plant ymchwilio ar-lein. Mae yna sawl ffordd y gellir gwahaniaethu'r adnodd hwn ar gyfer amrywiol oeddrannau a gallu.

Er y gellir defnyddio'r adnoddau hyn yn yr ysgol yn unig, hoffai Canolfan Ddiwylliant Conwy eich gwahodd i ymweld â'r Ganolfan i gyflwyno eich gwaith.

Bydd staff Canolfan Ddiwylliant Conwy ar gael i'ch helpu chi a'ch myfyrwyr gydag unrhyw ymchwil yn y dyfodol neu ddod o hyd i adnoddau arddangos.

E-bost LIC@conwy.gov.uk

Mae'r canlynol yn gamau a awgrymir y gallech eu dilyn. Mae'r ohebiaeth gan y rheolwr ffuglen Anwyn Roberts wedi'i chynnwys; fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'n well gan athrawon fod yn 'athro yn y rôl' ac actio cymeriad y cleient.

Proses y 'Fantell'

Cam 1

Yr athro yn derbyn e-bost gan Reolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Rydym wedi derbyn casgliad mawr o deganau replica yn ddiweddar ac rydym yn gobeithio y gallwch ein helpu ni. Rydym angen cwmni i ymchwilio, cynllunio a chyflenwi arddangosfa ddwyieithog dros dro newydd yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy. Hoffem i'r eitemau gael eu defnyddio i gynrychioli hanes lleol – stori/straeon neu ddigwyddiad mewn amser. Mae gennym 10 blwch arddangosfa wedi eu lleoli ledled y Ganolfan felly hoffem i chi ddewis 10 eitem i adrodd eich stori. Bydd angen i chi ymchwilio yr eitemau a'r hyn oedd yn digwydd ar y pryd. Rydym yn sylweddoli fod hon yn dasg heriol, ond rydym wedi clywed fod gennych dîm anhygoel o bobl greadigol gyda'r sgiliau sydd eu hangen i baratoi arddangosfa anhygoel. Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gallwch ymateb o fewn 7 diwrnod gwaith.

Cofion

*Anwyn Roberts
Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy*

Gweithgareddau a awgrymwyd:

- Plant yn cynnal cyfarfod ble maent yn trafod sut i sefydlu cwmni, pa rolau ddylent fod, sut i ddewis y rolau.
- Ymchwilio i sut mae amgueddfeydd yn cael eu trefnu/strwythuro. Ydyn nhw'n gweithio mewn timau sefydliadol, er enghraifft, tîm ymchwil, tîm ysgrifennu, tîm dehongli, tîm dylunio, tîm marchnata?
- Myfyrwyr yn ysgrifennu CV syml.
- Trafod y swydd a phenderfynu beth fydd angen ei wneud a faint fydd yn ei gymryd.

Cam 2

Mae'r dosbarth yn paratoi ac yn anfon e-bost i Ganolfan Ddiwylliant Conwy

Cam 3

Athro yn derbyn ymateb i dendro

Diolch i chi am eich e-bost. Hoffem logi eich cwmni i ddylunio ein harddangosfa newydd. Rydym wedi anfon cês o eitemau, delweddu a dogfennau i chi ddechrau. Sylwer bod y casgliad hwn angen ei drin gyda llawer o barch. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

Cofion

*Anwyn Roberts
Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy*

Gweithgareddau a awgrymwyd:

- Y dosbarth yn ffurfio cynllun ar gyfer eitemau yn cyrraedd - lle i agor y blwch, lle i storio'r eitemau, sut i'w trin.

Cam 4

Blwch adnoddau yn cyrraedd

Gweithgareddau a awgrymwyd:

- Plant yn chwarae'n ofalus gyda'r eitemau, i weithio allan sut maent yn cael eu defnyddio, a thrafod beth gallen nhw ddweud wrthym am y gorffennol.
- Ydy'r eitemau yn syml i'w gwneud? Pa ddeunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr eitemau? Deunydd naturiol neu ddeunydd gwneud? Gwnaed â llaw neu mewn ffatri?
- Mae teganau a deunydd ymchwil cysylltiol wedi eu rhannu i'w cyfnodau amser cyfatebol.
- Mae plant yn cwrdd, yn trafod a phenderfynu pa eitemau y byddent yn hoffi eu defnyddio a'r stori maent yn dymuno ei hadrodd.
- Mae plant yn ymchwilio'r cyfnodau amser i gael mwy o wybodaeth a dylunio eu harddangosfeydd. Mae hanes Conwy wedi'i gynnwys i chi ddechrau ar eich gwaith.
- Mae plant yn dylunio eu bwrdd stori ac yn ysgrifennu'r testun i gydfynd â'r teganau.

Uwch:

- Dosbarth yn edrych ar y deunydd a ddefnyddir ar gyfer gwneud teganau ac yn meddwl am y datblygiadau mewn technoleg, deunydd gwyddoniaeth a dyfeisio.
- Grwpiau yn paratoi braslun, sgriptiau, modelau o elfennau'r arddangosfa.

Cam 5

Dosbarth/cwmni yn anfon e-bost i Ganolfan Ddiwylliant Conwy i ddweud bod yr arddangosfa wedi'i dylunio ac yn barod.

Cam 6

Dosbarth/cwmni yn derbyn e-bost gan Ganolfan Ddiwylliant Conwy

Diolch i chi am eich e-bost. Rydym yn gyffrous iawn i glywed fod cynllun yr arddangosfa wedi'i gwblhau. Hoffem eich gwahodd i ymweld a chyflwyno cynnig eich arddangosfa i staff Canolfan Ddiwylliant Conwy.

Llawer o ddiolch am eich gwaith caled.

Cofion

Anwyn Roberts

Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Gweithgareddau a awgrymwyd:

- Dosbarth yn cwrdd i drafod sut i gyflwyno'r arddangosfa a pharatoi'r cyflwyniadau (gall hyn fod yn gyfuniad o gyflwyniad llafar, drama yn defnyddio'r teganau yn y cyfnodau amser, ffilm ac ati).
- Dosbarth/cwmni yn profi eu harddangosfa a chyflwyniadau drwy wahodd gwesteion (dosbarthiadau eraill/rhieni) i weld yr arddangosfa yn yr ysgol.
- Mae ffurflenni gwerthuso yn cael eu dylunio a'u rhoi i'r gwesteion. Mae adborth yn cael ei gasglu a'i roi mewn graffiau ar gyfer ei ddadansoddi. Mae adroddiad yn cael ei baratoi.
- Dosbarth yn trafod y canfyddiadau yn yr adroddiad ac yn gwneud unrhyw newidiadau i'r arddangosfa/cyflwyniadau.
- Dosbarth/cwmni yn paratoi e-bost i Ganolfan Ddiwylliant Conwy yn nodi bod yr arddangosfa wedi'i chwblhau a'i hadolygu.
- Plant yn ymchwilio taflenni hyrwyddol a dylunio rhai eu hunain.
- Dosbarth yn ymchwilio marchnata cyfryngau cymdeithasol ac yn dylunio rhestr swyddi.

- Maent yn paratoi cynllun pacio arddangosfa a'r daith i Ganolfan Ddiwylliant Conwy i osod yr arddangosfa.
- Dosbarth yn paratoi i bacio'r arddangosfa a dadbacio yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy.
- Dosbarth yn ymarfer eu cyflwyniad.

Cam 7

Dosbarth/cwmni yn derbyn e-bost diolch

Llawer o ddiolch am eich gwaith diweddar i Ganolfan Ddiwylliant Conwy. Roedd cynnig yr arddangosfa yn eithriadol.

Cofion

Anwyn Roberts

Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Cyfeiriadur Blwch Adnoddau

- Crynodeb o Hanes Dynol yn Sir Conwy
- Ffotograffau
- Dogfennau

Cynhanes i 1066 AD

Deunyddiau: Asgwrn, creigiau a cherrig, priciau, clai, cregyn, cnau, cŵyr, teracota a llinyn

Tegan, gêm neu weithgaredd	Defnydd	Tarddiad, stori neu esblygiad	Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd ychwanegol
Paentiadau ogof	Adrodd Straeon		<ul style="list-style-type: none">• Gwneud brwshys paent allan o ddeunyddiau naturiol a chreu eich paentiadau ogof eich hun• Paentio gweithgareddau beunyddiol gyda bysedd• Defnyddio deunydd naturiol i wneud modelau ar gyfer chwarae rhan eich hun
Ceffyl cŵyr a phen bwyell	Chwarae rhan		
Chwarae Dandis	Gêm		
Ceffyl pren	Chwarae rhan		
3 tiwnig, 2 glogyn a 2 felt	Chwarae rhan		

1066 AD i 1699 AD

Deunyddiau: Pledrenni (mochyn fel arfer!), pys sych fel stwffin, lledr a brethyn

Tegan, gêm neu weithgaredd	Defnydd	Tarddiad, stori neu esblygiad	Gweithgareddau ychwanegol
Cleddyf a tharian	Chwarae rhan		<ul style="list-style-type: none"> Actio golygfa rhwng y Rhufeiniaid a'r Celtiaid Pa fath o gemau ydych chi'n meddwl mae plant yn eu chwarae gyda phêl? Ymchwilio 'arfbeisiau' lleol. Dylunio rhai eu hunain ar gyfer eu teulu neu lwyth. Gwneud tarian yn cynnwys eu harbeisiau. Gwneud eu teganau chwrligwgan eu hunain neu gemau cwpan-a-phêl.
Bwa a saeth	Chwarae rhan		
5 carreg	Gêm	Chwarae Dandis	
Doliau stwmp	Chwarae rhan		
Pêl	Gêm		
Chwrligwgan syml	Gêm		
Cwpan a phêl	Gêm		
1 gwisg a het merch 1 tiwnig hogyn	Chwarae rhan		

1700 AD i 1837 AD

Deunyddiau: Papur, inc, metel (defnyddio tun) a dulliau weindio

Tegan, gêm neu weithgaredd	Defnydd	Tarddiad, stori neu esblygiad	Gweithgareddau ychwanegol
Ffyn codi	Gêm		<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio'r gemau ar gyfer sgiliau rhifedd a gwyddoniaeth. Amcangyfrif yr amser y bydd y chwrligwgan yn troelli, ei amseru a llenwi graffiau.
Jaciau metel	Gêm	5 carreg	<ul style="list-style-type: none"> Taflu'r dis a chofnodi'r canlyniadau mewn tabl yna mewn graff. Edrych ar siapiau'r gemau, yna tynnu llun y siapiau mewn 2D a 3D.
Chwrligwgan	Gêm		<ul style="list-style-type: none"> Ymchwilio tarddiad rhai o'r gemau a'u plotio ar fap o'r byd. Mae yna wybodaeth ar-lein fydd yn galluogi plant i blotio cwrs y gêm ar draws y byd. Gwneud blociau'r wyddor eu hunain (ciwbiau allan o gerdyn) a chreu eu henw neu lythrennau cyntaf.
1 wisg merch gyfoethog (cylch, sgert, ffrog, het a thrim) 1 wisg bachgen cyfoethog (top, trowsus a choler)	Chwarae rhan		<ul style="list-style-type: none"> Addurno'r ochr arall o'r ciwb gydag anifeiliaid, planhigion, lliw ac ati cysylltiedig â'u llythrennau.

1837 AD i 1901 AD

Deunyddiau: Tun, gwydr a lluniau symudol

Tegan, gêm neu weithgaredd	Defnydd	Tarddiad, stori neu esblygiad	Gweithgareddau ychwanegol
Io-io wedi'i baentio	Gêm		<ul style="list-style-type: none">• Dylunio gemau yn defnyddio'r marblis• Gwneud eich modelau symudol eich hun gyda bandiau rwber• Ymchwilio adloniant; syrcau a sioeau
Marblis	Gêm		
Cwch band rwber	Gêm		
Diablo	Gêm		
Acrobat	Gêm		
Llyfr fflicio	Gêm		
Teuluoedd Hapus	Gêm		
2 wisg merched fictoraidd	Chwarae rhan		

20fed Canrif Cynnar hyd at ddiwedd yr Ail Ryfel Byd

Deunyddiau: Clytio a thrwsio

Tegan, gêm neu weithgaredd	Defnydd	Tarddiad, stori neu esblygiad	Gweithgareddau ychwanegol
Parasiwt hances	Chwarae rhan		<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio faciwîs yn dod i Ogledd Cymru. • Sut mae bywyd wedi newid? • Ymchwilio 'clytio a thrwsio'. • Pam oedden nhw eisiau gwneud hyn? • Ymchwilio adeilad Harbwr Mulberry.
Tanc	Chwarae rhan		
Milwyr	Chwarae rhan	Doliau stwmp	
Gwn pren	Chwarae rhan		
Llongau rhyfel	Chwarae rhan		
Slinci	Gêm		
Chwrligwgan tun	Gêm		

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd – Hyd at Heddiwl

Deunyddiau: Plastig, polystyryn, glud, gliter, paent

Tegan, gêm neu weithgaredd	Defnydd	Tarddiad, stori neu esblygiad	Gweithgareddau ychwanegol
Plastisin/toes chwarae	Chwarae rôl/creu		<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio'r Chwyldro Diwydiannol. • Pa effaith a gafodd ar deganau? Ymchwilio i'r ffatrioedd teganau lleol. • Ymchwilio i'r holl ddeunydd gwahanol a ddefnyddir i wneud teganau drwy gydol hanes. • Darganfod faint o amser mae'n gymryd i'r deunydd hwnnw ddiraddio. Creu llinell amser a thrafod pa ddeunydd y dylid ei ddefnyddio ar gyfer teganau'r dyfodol. Ymchwilio i effaith plastig ar ein planed. Ysgrifennwch lythyr at eich AC lleol yn gofyn iddynt ymchwilio i ddeunyddiau eraill yn lle plastig. • Creu llinell amser syml o hanes lleol yn dangos pan oedd teganau gwahanol wedi eu cyflwyno. • Pa deganau o'r gorffennol y chwaraeir gyda nhw heddiw? • Cymharwch y ddau barasiwt. • Pa un sy'n cymryd yr amser hiraf i lanio o amrywiol uchder? Amcangyfrif, mesur, amser a chyflwyno.
Ciwb Rwbic	Gêm		
Tŵr siglog	Gêm	Ffyn codi	
Troellwr gwingo	Gêm	Chwrligwgan	
Parasiwt plastig	Chwarae rhan	Parasiwt hances	
Canon	Chwarae rhan		
Dinosor	Chwarae rhan		
Dol Gymreig Rogarc (gwreiddiol)	Chwarae rhan	Doliau stwmp	

Dolenni defnyddiol:

<http://historypoints.org/index.php?page=conwy-county-borough>

<https://www.thegeniusofplay.org/genius/time/toy-timeline.aspx>

<https://www.vam.ac.uk>